DATGANIAD I'R WASG
Dydd Iau 3 Mehefin 2010

PRIFARDD CEREDIGION

Llyr Gwyn Lewis o Rydychen yw prifardd Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ceredigion heddiw.

Yn wreiddiol o Gaernarfon, cafodd Llyr ei addysg yn Ysgol y Gelli ac Ysgol Syr Hugh Owen cyn graddio o Brifysgol Caerdydd y llynedd yn y Gymraeg a Llenyddiaeth Saesneg. Ar hyn o bryd mae'n astudio ar gyfer gradd Meistr mewn Astudiaethau Celtaidd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, ac yn bwriadu dychwelyd i Gaerdydd y flwyddyn nesaf i wneud doethuriaeth. Ymhlith ei ddiddordebau mae darllen, ysgrifennu, cadw'n heini drwy chwarae sboncen, rhedeg a nofio, cerdded, tynnu lluniau, coginio a chwarae'r gitâr.

Meddai Llŷr:
"Rwyf wedi cystadlu yn yr Urdd sawl gwaith ar y llwyfan ac yn y cystadlaethau gwaith cartref, gan gynnwys y fedal lenyddiaeth a'r fedal ddrama; y llynedd roeddwn yn ail yng nghystadleuaeth y goron. Rwy'n ei chyfri'n fraint o'r mwyaf i gael ennill cadair mor hardd ac iddi'r fath arwyddocâd. Hoffwn ddiolch o galon i'r rhai fu'n fy nysgu i drin geiriau dros y blynyddoedd, i Mam, Dad a'r teulu am fy annog i ddal ati, ac i Mared am bob cefnogaeth."

Gwenallt Llwyd Ifan a Fflur Dafydd oedd yn beirniadu heddiw, a thasg y beirdd oed ysgrifennu cerdd heb fod dros 100 llinell ar y testun 'Tonnau'. Meddai'r beirniaid am awdl Llyr:

"Yn sicr mae gan y bardd hwn weledigaeth a dawn, ac mae'n profi hynny trwy gyflwyno awdl unigryw a thrawiadol. O'r darlleniad cyntaf, synhwyrwn fod yma fardd go iawn ar waith… bardd cyffrous a soffistigedig."

Gruffydd Antur o Ysgol Uwchradd y Berwyn ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth, ac mae Gruffudd Owen o Gaerdydd a Dewi Huw Owen o Fangor yn rhannu'r drydedd wobr.

Rhoddwyd y gadair eleni gan deulu'r Hendre er cof am y diweddar Dic Jones a noddwyd y seremoni gan Ymddiriedolaeth Ivor ac Aeres Evans.

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360

PRESS RELEASE
Thursday 3 June 2010

LLYR WINS CEREDIGION'S CHAIR

At Urdd Gobaith Cymru's National Eisteddfod in Ceredigion today the chair was won by Llyr Gwyn Lewis from Oxford.

Originally from Caernarfon, Llyr was educated at Ysgol y Gelli and Ysgol Syr Hugh Owen before graduating last year in Welsh and English Literature form Cardiff University. He is now studying for a Masters in Celtic Studies at Jesus College, Oxford. He intends to return to Cardiff to study for a doctorate next year. Amongst his interests are reading, writing, keeping fit by playing squash, running and swimming, walking and cooking.

Llyr says:
"I've competed on the Urdd stage many times, and in the homework competitions. I came second for the crown last year. It's an honour to win such a beautiful and significant chair. I'm extremely grateful to those that have taught me to write over the years, to Mam, Dad and the family for encouraging me, and to Mared for all her support."

Gwenallt Llwyd Ifan and Fflur Dafydd were today's adjudicators, and the poets' task was to compose a poem of not more than 100 lines on the theme 'Tonnau' (Waves). They said of Llyr's ode:

"This bard has vision and talent, and he proves this by writing an unique and striking ode. From the very first reading we sense that we have here a true bard… an exciting and sophisticated bard."

Gruffydd Antur from Ysgol Uwchradd y Berwyn came second, and Gruffudd Owen from Cardiff and Dewi Huw Owen from Bangor share the third prize.

The chair was given this year in memory of the late Dic Jones, by his family, and the ceremony was sponsored by the Ivor and Aeres Trust.

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360